Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Yr Uned Llygaid

# Llawfeddygaeth Addasu Llygad Croes Gwybodaeth i gleifion

---

**Llawfeddygaeth Addasu Llygad Croes**

**Beth yw llygad croes?**
Mae llygad croes yn digwydd pan nad yw un llygad yn edrych i'r un cyfeiriad â'r llall. Mae'r llygaid yn peidio â gweithio gyda'i gilydd fel pâr. Pan fydd y llygad croes yn amlwg, mae'n bosibl y gall llawfeddygaeth helpu i gywiro hyn.

**Nod y llawfeddygaeth**
- Gwella ymddangosiad cosmetig y llygad (nid o reidrwydd i'w wneud yn 'syth').
- Gwella gallu'r ddau lygad i weithio gyda'i gilydd fel pâr. Nid yw bob amser yn bosibl cyflawni hyn.
- Lleddfu symptomau gweld dwbl.
- Lleddfu dal y pen yn anghyfforddus.

**Beth sy'n digwydd yn ystod y llawdriniaeth?**
Bydd y llawfeddyg yn trin y cyhyrau sy'n symud y llygad drwy newid eu sefyllfa (i'w gwanhau) neu eu byrhau (i'w cryfhau). Gellir gwneud hyn ar:
- Un neu ddau o gyhyrau un llygad.
- Un cyhyr ym mhob llygad. Gall hyn olygu llawfeddygaeth ar y llygad 'da'.
- Weithiau bydd yn rhaid trin tri neu bedwar cyhyr ar yr un pryd.
- Cyflawnir y rhan hon o'r llawfeddygaeth o dan anaestheteg gyffredinol. Pan fydd yr anaestheteg gyffredinol 'wedi colli ei rym', byddan nhw'n mesur y llygad croes. Mae'n bosibl na fydd angen addasu.

**Yr addasiad**
Os bydd angen addasiad, ni fyddwch yn cael anaestheteg gyffredinol eto.

Defnyddir diferion anaestheteg argroenol i rewi wyneb y llygad a bydd y llawfeddyg yn tynhau neu'n rhyddhau'r pwythau i osod y llygad yn y lle gorau.

**Pam eu bod wedi argymell llawfeddygaeth addasu?**
- Mae'n bosibl y bydd risg o or neu dan gywiriad o'r llygad croes. Byddai hyn yn achosi ymddangosiad gwael ar ôl y llawdriniaeth.
- Mae'n bosibl y bydd risg o weld dwbl ar ôl y llawfeddygaeth.
- Os ydych chi wedi cael llawfeddygaeth llygad croes cyn hyn, efallai y bydd yn llai posibl i ragfynegi llawfeddygaeth bellach.

I gael mwy o wybodaeth am y llawfeddygaeth, cofiwch ofyn i'r Orthoptydd, neu gofynnwch am daflen 'Cleifion ar restr aros am lawfeddygaeth llygad croes'.

**Nodiadau:**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**